# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 4**

COSBAU O DAN Y DDEDDF HON

*Cosbau sy'n ymwneud â chyfrifo pwysau trethadwy deunydd*

## 62 Cosb am gymhwyso'r disgownt dŵr yn anghywir

Pan fo gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig, wrth gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd mewn gwarediad trethadwy—

(a) yn cymhwyso disgownt heb fod â chymeradwyaeth o dan adran 21 i wneud hynny, neu

(b) yn cymhwyso disgownt sy'n fwy na'r disgownt a gymeradwywyd o dan adran 21,

mae'r gweithredwr yn agored i gosb nad yw'n fwy na £500 mewn cysylltiad â phob gwarediad trethadwy y cymhwysir disgownt iddo yn y naill neu'r llall o'r ffyrdd hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 62 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 62 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 62.